

Law Commission
Reforming the law

# GWARANTAU CHWILIO

## Crynodeb o'r adroddiad terfynol

HC 852

## CYFLWYNIAD

Dogfen a gyhoeddir gan ynad neu farnwr ('yr awdurdod sy'n rhoi') i swyddog heddlu neu ymchwiliwr arall yw gwarant chwilio. Mae gwarant chwilio yn rhoi awdurdod cyfreithiol i fynd i mewn i fangre a chwilio am ddeunydd penodol.

Mae oddeutu **176** o wahanol ddarpariaethau ar gyfer gwarantau chwilio ar draws **138** o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Ceisir y rhan fwyaf o warantau chwilio er mwyn chwilio mangre am dystiolaeth o drosedd. Cyhoeddir oddeutu **40,000** o warantau chwilio yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn.

Mae pa mor bwysig yw hi bod y gyfraith a'r gweithdrefnau sy'n rheoli gwarantau chwilio yn gweithredu'n effeithlon ac yn deg yn amlwg. Mae gwarantau chwilio yn arf hanfodol ar gyfer ymchwilio'n effeithiol i bob math o droseddau – gan gynnwys llofruddiaeth, terfysgaeth, twyll, treisio a cham-drin plant yn rhywiol – ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed. Ar yr un pryd, gwarantau chwilio yw un o bwerau mwyaf ymwthiol y wladwriaeth. Mae gweithredu gwarant chwilio nid yn unig yn golygu ymyrryd ar hawliau preifatrwydd unigolyn, ond gall gael effaith niweidiol sylweddol ar fywyd unigolyn ac arwain at gasglu llawer iawn o ddeunydd personol.

Mae'r canlyniadau yn gallu bod yn ddifrifol pan nad yw cyfraith a gweithdrefnau gwarantau chwilio yn gweithredu'n iawn. Lle mae yna ddiffygion yn y gyfraith, ni fydd gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith y modd i gael gafael ar dystiolaeth ac ymchwilio'n effeithiol i droseddau difrifol, eu canfod, eu hatal a'u herlyn. Mae hyn yn creu mwy o risg o niwed i aelodau'r cyhoedd.

Lle ceir camgymeriadau gweithdrefnol, efallai y bydd y warant chwilio ac unrhyw fynd i mewn, chwilio ac atafaelu yn cael eu datgan yn anghyfreithlon. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r llysoedd wedi datgan bod dwsinau o warantau chwilio yn anghyfreithlon. Mae gwarantau chwilio a gafwyd yn amhriodol yn gallu golygu bod ymchwiliadau troseddol cyfan yn chwalu a miliynau o bunnoedd yn cael eu gwario gan gyrff cyhoeddus ar ffioedd cyfreithiol ac iawndal. Gall hyn hefyd erydu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Gall niwed sylweddol i enw da a straen hefyd gael ei achosi i unigolion diniwed sy'n destun chwiliad. Gall yr effaith ar fywyd cymdeithasol unigolyn, ei astudiaethau academaidd neu redeg ei fusnes hefyd fod yn arbennig o ddwys lle mae dyfeisiau electronig yn cael eu cymryd a'u cadw.

## YR ADRODDIAD

Yn ein hadroddiad ceir casgliad ein prosiect gwarantau chwilio. Mae bron yn 600 tudalen o hyd ac mae'n gwneud 64 o argymhellion. Mae'r crynodeb hwn yn egluro'r argymhellion yr ydym yn eu gwneud a chefndir y prosiect. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn https://www.lawcom.gov.uk/project/search-warrants/

Gwnaethom ymgymryd â'r prosiect hwn ar gais y Swyddfa Gartref. Roedd y cais hwn yn dilyn sylwadau a wnaed gan uwch aelodau o'r farnwriaeth yn awgrymu bod angen diwygio'r gyfraith sy'n rheoli gwarantau chwilio. Roedd y sylwadau hyn yn dilyn cyfres o achosion uchel eu proffil lle datganwyd bod gwarantau chwilio yn anghyfreithlon.

Dechreuodd y gwaith ar y prosiect ym mis Ionawr 2017. Fe wnaethom gwrdd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i gasglu tystiolaeth am y problemau gyda'r gyfraith bresennol ac aethom ati i lunio cynigion dros dro mewn papur ymgynghori. Cyhoeddwyd ein papur ymgynghori ar 5 Mehefin 2018, a oedd yn nodi dechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus o dri mis.

Er mwyn meithrin syniadau ar gyfer diwygio, gwnaethom gynnal sawl digwyddiad bwrdd crwn gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ymarferwyr a'r farnwriaeth. Hefyd, eglurwyd inni o safbwynt gweithredol sut mae'r gwaith o wneud cais am warantau chwilio a'u gweithredu yn cael ei gyflawni.

Cawsom gyfanswm o 47 ymateb i'r ymgynghoriad, sydd wedi llywio'r gwaith o lunio ein polisi ac wedi cyfrannu at y 64 o argymhellion yn ein hadroddiad.

## PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH BRESENNOL

Mae'r gyfraith a'r weithdrefn sy'n rheoli gwarantau chwilio yn rhy gymhleth, yn anghyson, yn hen ffasiwn ac yn aneffeithlon. Mae'r problemau hyn yn amlygu eu hunain mewn pedair prif ffordd.

### Camgymeriadau

Mae camgymeriadau'n cael eu gwneud yn aml.

Dangosodd adolygiad a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn 2016 i **268** o weithrediadau ar wahân lle cafwyd gwarantau chwilio fod diffygion sylweddol posibl mewn **22** o weithrediadau a mân ddiffygion mewn 189 o weithrediadau ychwanegol

Mewn geiriau eraill, roedd gan 78.73% o'r ymchwiliadau warantau diffygiol, ac roedd diffygion sylweddol o bosibl yng ngwarantau 8.2% ohonynt.

1 National Crime Agency, *Warrant Review Closing Report* (31 Mawrth 2016) t 15.

Mae Operation Midland yn achos perthnasol uchel ei broffil, lle cafwyd chwe gwarant chwilio yn dilyn honiadau ffug a wnaed yn ymwneud â cham-drin rhywiol hanesyddol ar blant. Canfu adroddiad gan Syr Richard Henriques i Operation Midland gamgymeriadau difrifol yn y ceisiadau am warantau chwilio.[2] Gall camgymeriadau fel y rhain olygu miliynau o bunnoedd o gostau i gyrff cyhoeddus, erydu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a niwed sylweddol i enw da unigolion diniwed.

## Aneffeithlonrwydd gweithdrefnol

Mae'r problemau yr ydym wedi'u nodi'n arwain at aneffeithlonrwydd gweithdrefnol. Mewn rhai achosion gall gymryd tair wythnos i heddluoedd gael gwarant chwilio. Po fwyaf o amser y mae'n ei gymryd i gael a gweithredu gwarant chwilio, y mwyaf yw'r risg y bydd tystiolaeth yn cael ei cholli. Hefyd, bydd cyfnod hwy o droseddu posibl ac felly niwed yn cael ei achosi i aelodau'r cyhoedd.

Pan fydd gwarant chwilio wedi'i gweithredu, a deunydd wedi'i atafaelu, gall heriau logistaidd godi pan fydd deunydd yn cael ei archwilio wedyn. Gall hyn arwain at gostau ac oedi gormodol, gan rwystro asiantaethau gorfodi'r gyfraith rhag ymchwilio i droseddau'n effeithiol.

Hefyd, mae ôl-groniad sylweddol o ddyfeisiau electronig yn aros i gael eu harchwilio – hyd at flwyddyn mewn rhai achosion. Gall unigolion yr atafaelir eu dyfeisiau electronig gael eu gadael heb ddeunydd sy'n hanfodol i'w bywydau.

## Pwerau annigonol

Nid oes gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith y pwerau i ymchwilio i droseddau, eu canfod, eu hatal a'u herlyn yn effeithiol. Nid yw'r mater hwn yn fwy dwys yn unman nag ym maes deunydd electronig.

Rydym yn byw mewn oes lle gellir storio terabeitiau o ddeunydd yn electronig, mewn rhai achosion ar weinyddion pell mewn awdurdodaeth anwybodadwy. Mae'r gyfraith wedi methu â chadw'n wastad â'r dirwedd ddigidol fodern a'r ffyrdd y mae troseddu'n digwydd erbyn hyn. O ganlyniad, nid oes gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith y pwerau i gael tystiolaeth electronig sy'n hanfodol ar gyfer ymchwilio i droseddau difrifol a'u herlyn yn llwyddiannus.

## Mesurau diogelu annigonol

Mae'r mesurau diogelu a gwarchod i'r rheini y mae gwarant chwilio yn effeithio arnynt yn amrywio'n sylweddol ar sail pa bwerau sy'n cael eu harfer a sut maen nhw'n cael eu harfer. O ganlyniad, mae gan rai unigolion lai o warchodaeth statudol nag a fyddai ganddynt fel arall. Mae hefyd yn anodd i unigolion ddeall hyd a lled pwerau'r wladwriaeth, y mesurau diogelu sy'n eu gwarchod, a pha ddulliau gwneud iawn sydd ar gael iddynt.

Mae'r gyfraith bresennol yn creu risg benodol nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i angenrheidrwydd a chymesuredd y broses o chwilio am ddyfeisiau a data electronig a'u hatafaelu. Gellir atafaelu symiau enfawr o ddata sy'n amherthnasol i ymchwiliad neu sy'n dod o fewn categorïau arbennig y rhoddir mwy o warchodaeth iddynt o dan y gyfraith. Hefyd, nid oes digon o reoleiddio ynghylch technoleg newydd a thrin deunydd electronig ar ôl ei gaffael.

2 Sir Richard Henriques, *Independent Review of the Metropolitan Police Service's handling of non-recent sexual offence investigations alleged against persons of public prominence* (4 Hydref 2019), paragraff 2.4.64.

Mewn llawer o achosion, mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi cael eu gadael i ddatblygu eu harferion eu hunain o ran caffael a thrin deunydd electronig. Y canlyniad yw bod mwy o risg y bydd asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn gweithredu'n anghyfreithlon ac yn anghydnaws â hawliau dynol a rhwymedigaethau i ddiogelu data personol.

## EIN HARGYMHELLION

Mae gwarantau chwilio yn hanfodol i ymchwiliadau troseddol; maent hefyd yn codi materion cyfansoddiadol pwysig yn ymwneud â rheolaeth y gyfraith a'r cydbwysedd priodol rhwng pwerau'r wladwriaeth a hawliau a rhyddid unigolion. Disgrifiwyd y tensiwn rhwng y buddiannau cyhoeddus hyn sy'n cystadlu â'i gilydd gan Bingham LJ, fel yr oedd bryd hynny, fel a ganlyn:

**"Mae tyndra amlwg rhwng y ddau fudd cyhoeddus hyn oherwydd byddai modd ymchwilio i droseddau a'u herlyn yn y ffordd fwyaf effeithiol pe bai modd diystyru hawliau personol ac eiddo dinasyddion yn ddilyffethair a byddai amddiffyn hawliau personol ac eiddo dinasyddion yn llwyr yn golygu bod ymchwilio i lawer o droseddau a'u herlyn yn amhosibl neu cystal â bod yn amhosibl."[3]**

Nod cyffredinol yr argymhellion yn ein hadroddiad felly oedd sicrhau cydbwysedd teg a phriodol rhwng y buddiannau cyhoeddus hyn sy'n cystadlu â'i gilydd. Yn fwy penodol, byddai ein hargymhellion yn gwneud y gyfraith yn symlach, yn decach, yn fwy modern ac yn fwy effeithlon.

Rydym yn gwneud **64** o argymhellion yn ein hadroddiad. Byddai gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol i weithredu rhai o'n hargymhellion. Byddai argymhellion eraill yn gofyn am newidiadau i God B o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), y Rheolau Gweithdrefnau Troseddol a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol.

3 *R v Lewes Crown Court ex parte Hill* (1991) 93 Cr App R 60, 66.

## Gweithredu'r mesur diogelu statudols

Ym Mhennod 2 rydym yn argymell diwygio'r mesurau diogelu y mae'n rhaid eu dilyn wrth wneud cais am warant chwilio a'i gweithredu. Mae mesurau diogelu statudol y mae'n rhaid i ymchwiliwr eu dilyn wrth wneud cais am warant chwilio a'i gweithredu wedi'u cynnwys yn adrannau 15 ac 16 o PACE. Mae'r adrannau hyn yn helpu i sicrhau cydymffurfio â gofyniad y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) bod unrhyw chwiliad dan warant yn ymyrraeth gymesur â'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a ddiogelir gan erthygl 8.

Rydym yn argymell bod mesurau diogelu statudol, sydd wedi'u modelu ar adrannau 15 ac 16 o PACE, yn cael eu cynnwys yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1987, sy'n galluogi aelod o'r Swyddfa Twyll Difrifol i wneud cais am warant chwilio. Byddai hyn yn darparu eglurder a safonau ymddygiad gorfodadwy yn ymchwiliadau'r Swyddfa Twyll Difrifol.



Cod ymarfer yw Cod B o PACE sy'n rheoli'r modd y caiff pwerau'r heddlu i chwilio mangre eu harfer; mae'n ailddatgan llawer o'r mesurau diogelu a geir yn adrannau 15 ac 16 o PACE ac yn eu hategu â chanllawiau pellach. Nodwn nad yw'n glir i ba raddau y mae'n rhaid i ymchwilwyr nad ydynt yn swyddogion heddlu roi sylw i God B o PACE, a bod nifer yr asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n gallu gwneud cais am warantau a'u gweithredu wedi cynyddu'n sylweddol. Felly, rydym yn argymell y dylai Cod B o PACE ddarparu arweiniad i ymchwilwyr nad ydynt yn aelodau o'r heddlu ar gydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

Mae adran 15(1) o PACE yn darparu bod mynd i mewn i fangre neu chwilio mangre o dan warant yn anghyfreithlon oni bai 'ei' fod yn cydymffurfio ag adrannau 15 ac 16 o PACE. Rydym yn casglu bod 'ei' yn cyfeirio at y warant, y mynd i mewn a'r chwilio ac rydym yn argymell diwygio adran 15(1) o PACE i wneud hyn yn glir. Wedyn, trafodasom yr elfennau o'r chwiliad a oedd yn anghyfreithlon ar ôl torri gofynion adrannau 15 ac 16 o PACE. Sylwn fod y Llys Adrannol, ar sawl achlysur, wedi mynegi'r farn bod peidio â chydymffurfio ag adran 15(1) o PACE hefyd yn golygu bod atafaelu yn anghyfreithlon, yn ogystal â mynd i mewn a chwilio. Rydym unwaith eto yn argymell bod adran 15(1) o PACE yn cael ei diwygio i wneud hyn yn glir.

## Asiantaethau sydd â'r grym i wneud cais am warantau chwilio a'u gweithredu

Ym Mhennod 3 rydym yn ystyried a ddylai rhai asiantaethau nad oes ganddynt hawl ar hyn o bryd i wneud cais am warantau chwilio a'u gweithredu gael y pŵer i wneud hynny.

Amcangyfrifir bod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn agored i werth £1.21 biliwn o dwyll bob blwyddyn. Mae Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG (NHSCFA) a Gwasanaeth Gwrth-dwyll GIG Cymru (NHSFSW) yn ymchwilio i droseddau economaidd gwerth uchel yn

y GIG. Fodd bynnag, nid oes ganddynt y pŵer i wneud cais am warant chwilio. Gall hyn lesteirio ymchwilio'n effeithiol i dwyll yn erbyn y GIG. Rydym felly'n argymell y dylai NHSCFA ac NHSFSW gael y grym i wneud cais am warantau chwilio a'u gweithredu pan fydd amodau penodol yn cael eu bodloni.

Ar hyn o bryd, caniateir i'r Gwasanaeth Ansolfedd wneud cais am warant chwilio, fodd bynnag, dim ond ar gyfer categorïau penodol o ddeunydd. Rhaid i'r heddlu hefyd weithredu gwarant a roddir i'r Gwasanaeth Ansolfedd, a gall hynny roi baich diangen ar adnoddau'r heddlu. Rydym felly'n argymell y dylid rhoi'r grym i'r Gwasanaeth Ansolfedd i wneud cais am warantau chwilio ar gyfer categorïau ehangach o ddeunydd a gweithredu eu gwarantau eu hunain.

Rydym hefyd yn argymell hepgor y gofyniad presennol o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 bod yn rhaid i gwnstabl fod yn bresennol er mwyn i asiantaethau sydd gydag ef arfer eu pwerau chwilio ac atafaelu. Byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy effeithlon a chost effeithiol oherwydd gallai cwnstabl nad oes ei angen mwyach wrth weithredu gwarant adael y fangre ar ôl i fynediad cyfreithlon gael ei hwyluso.

## Dogfennau cais am warant chwilio

Ym Mhennod 4 rydym yn argymell diwygio'r dogfennau a ddefnyddir i wneud cais am warant chwilio. Rydym yn gwneud argymhellion a fyddai'n gwella effeithlonrwydd gweithdrefnol, yn lleihau'r posibilirwydd o gamgymeriadau difrifol ac yn sicrhau bod yr awdurdod sy'n rhoi yn cael darlun cywir a chyflawn o'r ymchwiliad.

Rydym yn dod i'r casgliad y byddai creu ffurflenni cais am warant mynediad a thempled gwarant mynediad o fudd gwirioneddol. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar hyn o bryd addasu ffurflenni a thempledi, sy'n cynyddu'r risg y bydd camgymeriadau'n cael eu gwneud.  Felly, rydym yn argymell creu ffurflen gais benodol am warant mynediad ar gyfer ceisiadau o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, a ffurflen gais generig am warant mynediad y gellir ei haddasu. Rydym hefyd yn argymell creu templed gwarant mynediad safonol.

Methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd yw un o'r heriau mwyaf cyffredin wrth geisio gwarantau chwilio. O ystyried bod materion dirifedi a all fod yn berthnasol i gyflawni'r ddyletswydd gonestrwydd, rydym yn argymell diwygio ffurflenni cais am warantau chwilio i gynnwys yn y nodiadau cyfarwyddyd restr helaeth (ond nad yw'n hollgynhwysol) o ffactorau a allai fod yn berthnasol wrth gyflawni'r ddyletswydd, ynghyd â chwestiynau penodol fel sy'n briodol.

Ar hyn o bryd, fel arfer caiff ffurflenni cais am warantau chwilio eu llwytho i lawr, eu llenwi ar gyfrifiadur, ac yna eu hanfon dros yr e-bost i'r ganolfan llys berthnasol. Rydym yn dod i'r casgliad y byddai porth ymgeisio ar-lein ar gyfer gwarantau chwilio yn dod â llu o fanteision, ac felly rydym yn argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn ystyried ymarferoldeb dylunio a gweithredu porth ymgeisio rhyngweithiol ar gyfer gwarantau chwilio ar-lein.



## Gwneud cais am warant chwilio

Ym Mhennod 5 rydym yn argymell diwygio'r fframwaith ehangach sy'n rheoli'r broses o wneud cais am warantau chwilio. Megis uchod, rydym yn gwneud argymhellion a fyddai'n gwella effeithlonrwydd gweithdrefnol, yn lleihau'r posibilrwydd o gamgymeriadau difrifol ac yn sicrhau bod yr awdurdod sy'n rhoi yn cael darlun cywir a chyflawn o'r ymchwiliad.

Rydym yn dod i'r casgliad y dylid cymryd camau i wneud y ddyletswydd cyfraith gyffredin o onestrwydd yn fwy hygyrch a dealladwy y tu allan i ffurflenni cais. O ystyried pwysigrwydd y ddyletswydd, rydym yn argymell bod y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei nodi yn adran 15 o PACE. Rydym hefyd yn argymell bod y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei nodi'n fanylach yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol a Chod B o PACE.



Nid oes trefn safonol ar gyfer trefnu gwrandawiad cais am warant chwilio. Roedd sylwadau gan ymgyngoreion yn ein harwain i wneud dau argymhelliad:

- rydym yn argymell bod pob asiantaeth gorfodi'r gyfraith yn cymryd camau i sicrhau bod digon o hyfforddiant yn cael ei ddarparu i swyddogion sy'n ymwneud ag ymgeisio am warantau chwilio a'u gweithredu i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cwblhau'n gyson i safon uchel; a
- rydym yn argymell bod GLITEM yn ystyried ymarferoldeb darparu mwy o slotiau ar gyfer gwrandawiadau ceisiadau am warantau chwilio, neu ddilyn mesurau eraill a fyddai'n lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gael gwarant chwilio a'r tarfu ar fusnes arall y llys.

Mae tuedd i swyddogion iau sydd â gwybodaeth gyfyngedig iawn am yr ymchwiliad gael y dasg o geisio gwarantau chwilio. Gall hyn olygu bod amser a chostau yn cael eu gwastraffu os gwrthodir ceisiadau am nad yw swyddogion yn gallu ateb cwestiynau'n foddhaol.


Rydym felly'n argymell diwygio Cod B o PACE i gynnwys y gofyniad bod gan berson sy'n gwneud cais am warant chwilio ddigon o wybodaeth i ateb cwestiynau a ofynnir gan yr awdurdod sy'n rhoi.

## Rhoi gwarant chwilio

Ym Mhennod 6 rydym yn argymell diwygio'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwarant chwilio. Rydym yn canolbwyntio ar sut y gellir gwella gweithdrefnau i sicrhau y glynir yn llawn wrth y gofynion cyfreithiol ac y ceir goruchwyliaeth farnwrol ddigonol. I'r perwyl hwnnw, argymhellwn mai dim ond yr ynadon hynny sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ddylai gael y pŵer i roi gwarant chwilio. Rydym hefyd yn argymell ffurfioli'r arfer bod ynadon yn cael cyngor ar y Rheolau Gweithdrefnau Troseddol gan gynghorydd cyfreithiol.

Ar ben hynny, rydym yn argymell ffurfioli'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwarantau chwilio yn ystod a'r tu allan i oriau llys ac archwilio ymarferoldeb gwneud recordiad sain o wrandawiadau am warantau chwilio. Nod yr argymhellion hyn yw gwneud y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwarant chwilio yn symlach ac yn fwy effeithlon, gan leihau'r posibilrwydd o gamgymeriadau ar yr un pryd.

Credwn hefyd y dylai'r defnydd o warantau chwilio fod yn fwy tryloyw. Felly, rydym yn argymell gofyniad i gofnodi a chyhoeddi ystadegau ar y defnydd o warantau chwilio. Yn ogystal â gwella tryloywder, byddai casglu a chyhoeddi data ar warantau chwilio yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddeall tueddiadau allweddol, a gallu ymateb iddynt.




## Cynnal chwiliad dan warant

Ym Mhennod 7 rydym yn argymell diwygio amryw o elfennau o weithredu gwarant chwilio. Rydym yn gwneud argymhellion a fyddai'n gwella gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymchwilio i droseddau'n effeithiol. Byddai'r argymhellion a wnawn hefyd yn hyrwyddo arfer pwerau gwarantau chwilio mewn modd cymesur ac yn darparu mwy o wybodaeth i unigolion ynghylch eu hawliau.

Er mwyn rhesymoli a chryfhau pwerau gorfodi'r gyfraith, rydym yn argymell:

- diwygio darpariaethau gwarantau chwilio o dan sawl statud i ddarparu'r awdurdod i fynd i mewn i fangre a'i chwilio ar fwy nag un achlysur ('gwarantau mynediad lluosog') ac unrhyw fangre sy'n cael ei meddiannu neu ei rheoli gan berson penodol ('gwarant pob eiddo');
- y caniateir i gwnstabl chwilio person a ganfyddir ar fangre lle y mae gwarant chwilio o dan PACE yn cael ei gweithredu a bod amodau penodol yn cael eu bodloni; a
- egluro mewn nifer o Ddeddfau nad oes angen i geisydd ond nodi swyddogaeth neu ddisgrifiad person a fydd yn mynd gyda'r swyddog sy'n gweithredu'r warant yn hytrach na'i enw.

Er mwyn cryfhau mesurau diogelu a hyrwyddo cymesuredd, rydym yn argymell:

- diwygio Cod B o PACE i (1) darparu canllawiau ynghylch beth sy'n awr resymol wrth benderfynu pryd i weithredu gwarant chwilio; (2) egluro pryd ac ar ba ffurf y mae'n rhaid darparu gwarant chwilio i feddiannydd; a (3) datgan bod gan feddiannydd hawl i ofyn am gynrychiolydd cyfreithiol i arsylwi ar weithredu gwarant;

- cyflwyno gofyniad statudol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n gweithredu gwarantau chwilio roi hysbysiad o bwerau a hawliau i feddiannydd;
- cyflwyno gwe dudalen benodol ar warantau chwilio 'eich hawliau a'r gyfraith' ar wefan y Llywodraeth; a
- bod y ffurflenni cais yn cael eu diwygio i wahodd yr awdurdod sy'n rhoi i gofnodi ei resymau dros ganiatáu gwarant y caniateir ei gweithredu y tu allan i oriau arferol.

## Herio gwarant chwilio

Ym Mhennod 8 rydym yn archwilio sut y gellir herio cyfreithlondeb gwarant chwilio a'r modd y mae chwiliad dan warant wedi'i gynnal.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, nid ydym bellach o'r farn y byddai'n werth cyflwyno gweithdrefn gwbl newydd i herio gwarantau chwilio yn Llys y Goron. Yn hollbwysig, rydym o'r farn y byddai argymhellion a wneir mewn rhannau eraill o'n hadroddiad yn hyrwyddo mynediad at gyfiawnder ac yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn y system. Fodd bynnag, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol ynghylch y weithdrefn o dan Ran 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i wneud cais i ddychwelyd eiddo a atafaelwyd:

- bod gan farnwr sy'n gwrando cais o dan adran 59 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol bŵer i orchymyn costau rhwng partïon; a
- bod gan farnwr sy'n gwrando ar her adolygiad barnwrol i warant chwilio bwerau a dyletswyddau Llys y Goron mewn perthynas â dychwelyd neu gadw deunydd o dan adran 59 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol.

## Deunydd sensitif ac imiwnedd budd y cyhoedd

Ym Mhennod 9 rydym yn argymell diwygio'r weithdrefn ar gyfer delio â gwybodaeth sensitif sydd wedi'i chynnwys mewn cais am warant chwilio, a hawliadau am imiwnedd budd y cyhoedd.

Rydym yn dod i'r casgliad y byddai rheolau mwy rhagnodol yn ymwneud â thrin deunydd sensitif yn y Rheolau Gweithdrefnau Troseddol yn fuddiol o ystyried y diffyg dull gweithredu cyson yn ymarferol. Rydym yn awgrymu pa fath o reolau mwy rhagnodol y gellid eu cyflwyno ac yna'n argymell diwygio'r Rheolau Gweithdrefnau Troseddol i gynnwys rheolau sy'n rheoli storio deunydd sensitif a ddarperir i'r llys yn ystod cais am warant chwilio.

Ar hyn o bryd, caiff ymchwiliwr gofrestru gwrthwynebiad i gais gan berson yr effeithir arno gan warant i gael yr wybodaeth sylfaenol a dyngir i gefnogi'r cais am warant. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd i ni fod y weithdrefn bresennol yn peri'r risg na fydd ymchwiliwr efallai yn cael hysbysiad o gais am ddatgelu cais mewn pryd, neu ddim o gwbl, gan arwain at ddatgelu gwybodaeth sensitif iawn. Rydym felly'n argymell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiwygio'r rheolau sy'n rheoli hawl ymchwiliwr i wneud gwrthwynebiad, gyda'r nod o sicrhau bod yr ymchwiliwr yn cael hysbysiad o'r cais perthnasol.

I hyrwyddo cysondeb wrth wneud penderfyniadau, rydym hefyd yn argymell y dylid ystyried diwygio'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol i nodi materion y dylai'r llys eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dal deunydd sensitif yn ôl ar sail imiwnedd budd y cyhoedd.

## Deunydd anghyfiawn

Ym Mhennod 10 rydym yn argymell diwygio gweithrediad yr hyn a elwir yn 'eithriad anghyfiawnder' neu'n 'eithriad troseddu a thwyll'. O dan y rheol hon, mae'r warchodaeth a roddir i gategorïau arbennig o ddeunydd yn cael ei cholli neu ei hatal pan fydd, yn gyffredinol, yn cael ei chreu, ei chaffael neu ei dal at ddiben anghyfiawn.

Rydym yn dod i'r casgliad nad oes dull clir na chydlynol o ymdrin ag egwyddor anghyfiawnder yn bodoli o dan y gyfraith bresennol. Mae'r diffyg eglurder ynghylch y categorïau o ddeunydd y mae'r egwyddor yn berthnasol iddynt, y prawf sydd i'w gymhwyso a'i effaith os yw'n berthnasol, yn creu dryswch a phroblemau eraill yn ymarferol. Am y rheswm hwn, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried a ddylid diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â deunydd anghyfiawn yng nghyd-destun ymchwiliadau troseddol.

## Trin deunydd sydd â braint gyfreithiol

Ym Mhennod 11 rydym yn ystyried diwygio'r ffordd y caiff deunydd sydd â braint gyfreithiol ei ddidoli a sut y caiff anghydfodau ynghylch ei drin eu datrys.

Rydym yn dechrau'r bennod drwy archwilio'r achos dros gyflwyno gweithdrefn ffurfiol lle cyfarwyddir cwnsler annibynnol i helpu i adnabod deunydd sydd â braint gyfreithiol a'i wahanu oddi wrth ddeunydd arall. I annog cysondeb yn ymarferol, ond er hynny cadw hyblygrwydd, rydym yn argymell bod y weithdrefn ar gyfer cyfarwyddo cwnsler annibynnol i ddatrys materion sy'n gysylltiedig â braint gyfreithiol yn cael ei nodi mewn cod ymarfer newydd. Rydym yn argymell cod ymarfer newydd ym Mhennod 17 o'n hadroddiad.

Ym Mhennod 17 rydym hefyd yn argymell y dylai person sydd â buddiant mewn deunydd electronig allu gwneud cais i Lys y Goron am i farnwr benderfynu sut y dylid didoli deunydd electronig, megis deunydd sydd â braint gyfreithiol. Byddai'r weithdrefn hon hefyd yn galluogi asiantaeth gorfodi'r gyfraith i geisio cymeradwyaeth farnwrol i brotocol sy'n nodi sut y mae'n bwriadu didoli deunydd a datrys anghydfodau rhwng y partïon. Bydd hyn yn helpu i adnabod deunydd sydd â braint gyfreithiol, fel y gellir ei wahanu, ei ddychwelyd a'i ddileu'n gynt.

## Trin deunydd a eithrir

Ym Mhennod 12 rydym yn argymell diwygio'r ffordd y mae 'deunydd a eithrir' (h.y. cofnodion personol cyfrinachol, meinwe a hylif dynol a deunydd cyfrinachol) yn cael ei drin o dan PACE.

Rydym yn dod i'r casgliad bod yr amodau statudol presennol o dan PACE ar gyfer gwarant chwilio ynghylch cofnodion personol cyfrinachol yn rhy gyfyngol, gan rwystro ymchwiliadau troseddol difrifol. Mae ystyriaethau o ran sut y mae'r amodau statudol yn gweithredu a'u polisi sylfaenol. At hynny, mae mecanweithiau eraill er mwyn cael cofnodion personol cyfrinachol yn anfoddhaol.

Rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol i gofnodion personol cyfrinachol fod yn ddarostyngedig i'r un amodau mynediad statudol â 'deunydd gweithdrefn arbennig', sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2 o atodlen 1 i PACE. Fodd bynnag, nid ydym yn gwneud argymhelliad pendant i ddiwygio. Yn hytrach, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried a yw'r gyfraith sy'n rheoli mynediad at gofnodion personol cyfrinachol, meinwe a hylif meinwe dynol o dan PACE yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd, ac a ddylid diwygio'r gyfraith.

Rydym wedyn yn ystyried sefyllfa deunydd newyddiadurol cyfrinachol. Rydym yn mabwysiadu'r un dadansoddiad ag a wnawn mewn perthynas â chofnodion personol cyfrinachol. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai barhau i fod yn bosibl cael deunydd newyddiadurol cyfrinachol o dan PACE o dan amgylchiadau prin iawn. Eto, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried a yw'r gyfraith sy'n rheoli mynediad at gofnodion personol cyfrinachol o dan PACE yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd, ac a ddylid diwygio'r gyfraith.

## Trin deunydd gweithdrefn arbennig

In Chapter 13 we consider reform to the way in which 'special procedure material' (i.e. non-confidential journalistic material and confidential business records) is treated.

Datgelodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ei bod yn anodd i ymchwilwyr ganfod a yw deunydd yn dod o fewn y diffiniad o ddeunydd gweithdrefn arbennig o dan PACE. Rydym yn dod i'r casgliad bod angen mwy o eglurder i adnabod pryd mae deunydd yn ddeunydd gweithdrefn arbennig, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a lleihau'r risg o chwilio ac atafaelu anghyfreithlon. Rydym yn argymell bod Cod B o PACE yn cael ei ddiwygio i roi arweiniad ar pa bryd y mae deunydd yn ddeunydd gweithdrefn arbennig.

## Deunydd electronig

Ym Mhenodau 14 i 18 rydym yn archwilio sut mae'r gyfraith sy'n rheoli gwarantau chwilio yn berthnasol i ddyfeisiau electronig a data electronig ('deunydd electronig'). Y cwestiwn canolog y mae'r penodau hyn yn ymwneud ag ef yw: beth yw'r priod gyfraith a gweithdrefn pan fydd ymchwiliwr yn ceisio cael data electronig sydd wedi'i storio ar, neu y gellir cyrchu ato ar, ddyfais ar fangre sydd o dan awdurdod gwarant chwilio?

Rydym wedi dod i'r casgliad mai'r maes deunydd electronig yw'r maes sydd angen ei ddiwygio fwyaf. Nid yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli'r broses o chwilio ac atafaelu **deunydd electronig** yn ddigonol mwyach.

Mae newid technolegol dramatig wedi creu ansicrwydd cyfreithiol o ran cyfundrefnau gwarantau chwilio. O ganlyniad, mae'r gyfraith bresennol yn atal ymchwiliadau troseddol ac mae iddi oblygiadau sylweddol o ran preifatrwydd i'r rheini y mae eu dyfeisiau electronig yn cael eu chwilio a'u hatafaelu.



## Chwilio am ddeunydd electronig sydd wedi'i storio'n lleol a'i atafaelu

Ym Mhennod 15 rydym yn argymell diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â chwilio am ddyfeisiau electronig a data electronig sy'n cael eu storio'n lleol ar y dyfeisiau hynny a'u hatafaelu. Rydym yn dod i'r casgliadau canlynol ac yn gwneud yr argymhellion canlynol.

- Dylai fod modd i bob math o ddeunydd electronig, ar ei wyneb, fod yn darged i warant chwilio ac, o dan rai cyfundrefnau, mae hynny'n bosibl.
- Dylai darpariaethau gwarantau chwilio barhau i ganiatáu i ddyfeisiau electronig fod yn darged i warant chwilio lle mae ymchwilwyr yn ceisio gwybodaeth berthnasol ar ffurf electronig. Fodd bynnag, rydym yn argymell diwygio darpariaethau gwarantau chwilio i egluro, pan geisir data electronig, y gall dyfeisiau electronig fod yn darged i warant chwilio ar yr amod bod y data'n bodloni'r amodau statudol sy'n ymwneud â'r deunydd targed.
- Rydym yn argymell bod ffurflenni cais am warantau chwilio yn cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i ymchwiliwr, sy'n ceisio cael gwarant i chwilio am ddyfeisiau electronig a'u hatafaelu er mwyn cael data electronig, egluro: (1) mewn cymaint o fanylder ag sy'n ymarferol, pa wybodaeth a geisir ar y dyfeisiau; a (2) pam ei fod yn credu bod y wybodaeth ar y dyfeisiau a pham y byddai'r wybodaeth yn bodloni'r amodau statudol.
- Dylai fod modd nodi dyfeisiau electronig ar wyneb y warant fel y deunydd i chwilio amdano ar y fangre a'i atafaelu. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid mynnu bod gwarantau chwilio yn cynnwys dwy ran pan geisir dyfeisiau electronig er mwyn cael gwybodaeth ar ffurf data electronig: (1) dylai'r rhan gyntaf nodi'r ddyfais/dyfeisiau electronig y dylid chwilio amdanynt a'u hatafaelu; a (2) dylai'r ail ran nodi'r wybodaeth ar y ddyfais/dyfeisiau electronig a geisir.
- Dylai gwarantau chwilio barhau i ganiatáu atafaelu neu gopïo dyfeisiau electronig cyfan lle bo angen gwneud hynny ac y cedwir at fesurau diogelu. Rydym yn argymell bod darpariaethau gwarantau chwilio yn cael eu diwygio i'w gwneud yn glir bod y pŵer i atafaelu dyfais electronig yn cynnwys y pŵer i gopïo'r holl ddata electronig neu rywfaint o'r data electronig sydd wedi'i storio ar y ddyfais electronig tra mae ar y fangre.
- Nid yw'n glir a yw rhai darpariaethau gwarant chwilio yn caniatáu i ymchwiliwr chwilio dyfeisiau electronig ar y fangre. Rydym yn argymell y dylid diwygio darpariaethau gwarantau chwilio er mwyn caniatáu i ymchwiliwr wneud cais am awdurdod i chwilio dyfeisiau electronig a ganfyddir yn ystod chwiliad lle mae amodau penodol yn cael eu bodloni. Os caniateir hynny, dylai'r warant awdurdodi chwilio am unrhyw ddata electronig a gedwir ar y ddyfais sy'n dod o fewn yr wybodaeth a bennir yn ail ran gwarant chwilio, a'i gopïo.

## Chwilio am ddeunydd electronig sydd wedi'i storio'n bell a'i atafaelu

Mae storio'n bell yn her anodd ac unigryw i'r gyfraith sy'n rheoli gwarantau chwilio. Gellir storio tystiolaeth o droseddu y tu allan i'r awdurdodaeth mewn lleoliad hysbys, anhysbys neu anwybodadwy. Mae'n bosibl hefyd y bydd modd cael gafael ar ddata sydd wedi'i storio'n bell o unrhyw ddyfais electronig ar unrhyw fangre sydd â'r offer a'r manylion mynediad cywir i gyfrif ar-lein.

Ym Mhennod 16 rydym yn trafod y pwerau y dylai asiantaethau gorfodi'r gyfraith eu cael i chwilio o dan warant chwilio am ddata electronig sydd wedi'i storio'n bell a'i atafaelu (h.y. ei gopïo). Rydym yn dod i nifer o gasgliadau ac yn gwneud nifer o argymhellion.

Rydym yn dod i'r casgliad bod y dadleuon o blaid ac yn erbyn dosbarthu pwerau chwilio, atafaelu a chynhyrchu - a arferir yn yr awdurdodaeth hon mewn perthynas â data sydd wedi'i storio'n bell - fel pwerau alldiriogaethol yn union gytbwys. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r rhagdybiaeth nad oes i statud effaith alldiriogaethol yn gweithredu yn y fath fodd ag i atal gallu arfer pwerau chwilio mewn perthynas â data sydd wedi'i storio'n bell.

Rydym hefyd yn dod i'r casgliad nad yw'r amgylchiadau lle caniateir chwilio, atafaelu a chynhyrchu data sydd wedi'i storio'n bell o dan gyfraith ryngwladol yn glir. Mae arfer y wladwriaeth yn dangos rhai enghreifftiau lle gellid barnu bod hyn yn dderbyniol, fodd bynnag, mae pryderon yn amlwg o hyd yn y gymuned ryngwladol ac nid oes consensws rhyngwladol clir. Wedi dweud hynny, bydd llawer o achosion lle mae chwilio, atafaelu neu gynhyrchu data sydd wedi'i storio'n bell yn unol â gwarant yn annhebygol o arwain at wrthwynebiad gan wladwriaeth arall a byddai unrhyw dresmasu ar sofraniaeth gwladwriaeth arall yn rhy fach i'w ystyried.

Rydyn ni'n dod i'r casgliad bod angen y pŵer ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith i fynd i mewn i fangre lle mae data electronig yn cael ei gadw'n bell, chwilio dyfeisiau electronig a chopïo data sydd wedi'i storio'n bell. Nid yw'r amgylchiadau presennol lle gall asiantaethau gorfodi'r gyfraith wneud hynny'n glir. Felly, dylid rhoi'r pwerau i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fynd i mewn i fangre, chwilio am ddata sydd wedi'i storio'n bell a'i gopïo wrth weithredu gwarant chwilio. Er mwyn dod i gasgliad pendant ynghylch y model priodol i'w fabwysiadu, bydd angen mewnbwn technegol a thrawstoriadol pellach. Rydym felly'n argymell bod y Llywodraeth yn ystyried a fyddai'n ddymunol diwygio'r gyfraith i ganiatáu i asiantaethau gorfodi'r gyfraith gael caniatâd i chwilio am ddata sydd wedi'i storio'n bell a'i gopïo wrth weithredu gwarant chwilio.



Mae bron pob data electronig yn cael ei ddiogelu naill ai gan gyfrinair, amgryptio neu ddilysu dau-ffactor. Heb bŵer i fynnu cyfrineiriau neu ddadgryptio, bydd unrhyw bŵer i chwilio am ddeunydd sydd wedi'i storio'n bell a'i gopïo yn aneffeithiol mewn rhai amgylchiadau. Mae pryderon bod y gyfraith bresennol sy'n rheoli gorfodi datgelu cyfrineiriau yn annigonol a bod angen ei diwygio. Rydym felly'n argymell bod y Llywodraeth yn ystyried a fyddai'n ddymunol diwygio'r gyfraith sy'n rheoli'r pŵer i orfodi datgelu cyfrineiriau a gwybodaeth arall am fynediad gyda'r nod o wneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy effeithiol.

Gyda data sydd wedi'i storio'n bell, hyd yn oed os bydd dyfais electronig yn cael ei hatafaelu, mae modd cyrchu at ddata sy'n cael ei storio mewn cyfrif ar-lein o hyd, ac felly ei addasu neu ei ddileu, drwy ddefnyddio dyfais arall i gysylltu â'r cyfrif ar-lein. Ychydig iawn o bwerau statudol, os oes rhai o gwbl, y gellid dibynnu arnynt fel sail gyfreithlon i addasu neu newid data sydd wedi'i storio'n bell er mwyn atal ymyrryd â data o'r fath. Rydym yn cydnabod sail resymegol pŵer i addasu neu newid data i atal ymyrryd, yn ogystal â'r pryderon dilys a fyddai'n cael eu codi gan bŵer ymwthiol o'r fath. Felly, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried a fyddai'n ddymunol cyflwyno pŵer y gellir ei arfer yn unol â gwarant chwilio i addasu neu newid data sydd wedi'i storio'n bell.

## Trin deunydd electronig a atafaelwyd

Ym Mhennod 17 rydym yn ystyried y gyfraith a'r weithdrefn sy'n rheoli'r ffordd y caiff deunydd electronig ei drin unwaith y bydd ym meddiant asiantaeth gorfodi'r gyfraith ar ôl gweithredu gwarant chwilio.

Rydym yn argymell trefn statudol newydd, wedi'i modelu ar Ran 2 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu, i reoli'r ffordd yr ymdrinnir â deunydd electronig a atafaelwyd neu a gopïwyd yn unol â gwarant chwilio.

Rydym hefyd yn argymell bod y drefn yn cael ei hategu gan god ymarfer newydd a fyddai'n rheoleiddio'r gwaith o gaffael a thrin deunydd electronig mewn achosion gwarant chwilio.

Byddai'r drefn statudol felly'n rhagnodi'r canlyniad i'w gyflawni drwy bennu dyletswyddau cyffredinol a pharhaus. Byddai'r cod ymarfer wedyn yn nodi'r dull o gyflawni'r dyletswyddau. Mae hwn yn faes lle mae hyblygrwydd yn hanfodol. Ni ellir cael dull gweithredu un-maint-i-bawb ar gyfer trin deunydd electronig. Mae technoleg a gwaith fforensig digidol yn parhau i esblygu. Byddai cod ymarfer yn rhoi hyblygrwydd ac yn caniatáu diweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion gorau.

Rydym yn argymell y pwerau a'r dyletswyddau statudol canlynol.

- Dylai fod yn ofynnol i ymchwiliwr ddarparu'r wybodaeth ganlynol o fewn amser rhesymol gan berson sydd â buddiant yn y deunydd electronig sy'n gwneud cais amdano: (1) disgrifiad mor benodol â phosibl o'r hyn a atafaelwyd, fel y bo'n rhesymol ymarferol; (2) manylion pa gamau a gymerwyd mewn perthynas â dyfeisiau electronig gyda chymaint o fanylion ag sy'n ymarferol; a (3) protocolau yn dweud sut y mae deunydd electronig i gael ei archwilio.
- Dylai fod yn ofynnol i ymchwiliwr wneud y canlynol: (1) dychwelyd dyfeisiau electronig ar ôl eu hatafaelu ar fangre cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; (2) dychwelyd a/neu ddileu deunydd electronig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; a (3) dychwelyd a/neu ddileu deunydd electronig nad yw'n ymateb i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.
- Dylai person sydd â buddiant mewn deunydd electronig allu gwneud cais i Lys y Goron am y canlynol: (1) barnwr i gymeradwyo, neu ddyfarnu ar anghydfodau ynghylch, y ffordd y mae'r ymchwiliwr yn bwriadu archwilio deunydd electronig; a (2) dychwelyd neu ddileu data electronig penodol neu ddychwelyd dyfais electronig ar seiliau cyfyngedig penodol.

Byddai'r argymhellion yn caniatáu i hyblygrwydd gweithredol a chyfiawnder ymarferol gael eu cyflawni fesul achos.

**"Byddai ein hargymhellion yn cyflwyno mesurau diogelu cadarn a chyson o ran trin deunydd electronig. Byddent yn arwain at fwy o dryloywder, atebolrwydd ac yn cyfyngu ar yr ymyrraeth â hawliau eiddo a phreifatrwydd. Ar yr un pryd, byddai'r argymhellion yn hwyluso archwilio deunydd electronig yn gyflym mewn ffordd nad yw'n rhwystro ymchwiliadau troseddol nac yn gosod gofynion afresymol ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith."**

## Adolygiad ehangach o'r gyfraith sy'n rheoli deunydd electronig

Mae'r problemau sy'n ymwneud â deunydd electronig a drafodwyd yn ein hadroddiad yn mynd y tu hwnt i warantau chwilio. Ni fyddai newidiadau i ddeddfwriaeth gwarantau chwilio chwaith yn ateb tymor hir hyfyw i'r problemau a achosir gan gyfrifiadura yn y cwmwl. Mae rhyng-gysylltedd pwerau ymchwilio hefyd yn codi cwestiynau ynghylch ble y dylid cynnwys pwerau penodol. Mae dadleuon hefyd y dylai rhai o'n hargymhellion fod yn berthnasol y tu hwnt i gyd-destun gwarantau chwilio. Hefyd, roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod angen diwygio nifer o bwerau statudol eraill.

Ym Mhennod 18 rydym felly'n argymell adolygiad ehangach o'r gyfraith sy'n rheoli caffael a thrin deunydd electronig mewn ymchwiliadau troseddol, nad yw wedi'i gyfyngu i warantau chwilio yn unig. Heb fod yn hollgynhwysfawr, rydym yn nodi nifer o bynciau y byddai'n werth eu harchwilio ymhellach yn ein barn ni:

- a fyddai'n ddymunol cael pwerau i chwilio dyfeisiau electronig nad ydynt yn ddibynnol ar fangre, neu i chwilio data electronig yn uniongyrchol;
- gweithredu adrannau 19(4) a 20(1) o PACE sy'n caniatáu i gwnstabl ei gwneud yn ofynnol i ddata electronig sy'n hygyrch o fangre gael ei gynhyrchu; a
- rheoleiddio dyfeisiau echdynnu data, yn ogystal â thynnu data o ddyfeisiau achwynwyr.

## Cydgrynhoi deddfwriaeth gwarantau chwilio

Ym Mhennod 19 rydym yn trafod a fyddai'n ddymunol cydgrynhoi darpariaethau gwarantau chwilio, yn ogystal â diddymu darpariaethau diangen a safoni rhai amodau statudol. Nid ydym yn argymell diwygio am nifer o resymau. Byddai baich y cydgrynhoi, o ran y gofynion amser ar Swyddfa'r Cwnsler Seneddol, ymgyngoreion a'r Senedd, yn annhebygol o fod yn fwy nag unrhyw fudd. Byddai'n rhaid ystyried cydgrynhoi hefyd fel rhan o adolygiad llawer ehangach o bwerau ymchwilio, ac nid wedi'i gyfyngu'n unig i warantau chwilio.



102 Find out more at design102.co.uk
Design that makes a difference

CCS0920279116
ISBN 978-1-5286-2169-4